Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Ymweliad ag Asiantaeth Gofal a Thrwsio Caerffili – 12/02/04

Ddydd Iau 12 Chwefror, aeth William Graham, Leanne Wood a'r Clerc i ymweld ag Asiantaeth Gofal a Thrwsio Caerffili, i gasglu gwybodaeth ar gyfer adolygiad Polisi y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol o Dai ar gyfer Pobl Hn. Dyma adroddiad ar yr ymweliad hwnnw a'r wybodaeth a gasglwyd.

Mae Asiantaeth Caerffili wedi'i lleoli yn Swyddfeydd Cyngor Sir Caerffili ym Mhontllanffraith. Mae mantais amlwg o fod yng nghanol y Sir a bod yn agos at swyddogion priodol yr awdurdod lleol.

Daw'r rhan fwyaf o gyllid yr Asiantaeth (66%) gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ffurf grant. Daw'r gweddill ar ffurf cyfraniadau gan yr awdurdod lleol (gan gynnwys rhoi ystafelloedd ar gyfer eu swyddfeydd), gan y Bwrdd Iechyd Lleol a chyfraniad gan Gymdeithas Tai Unedig Cymru.

Mae gan yr Asiantaeth berthynas weithio ardderchog â'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol ac mae'n cydweithio'n agos ag amrywiaeth o gyrff ategol drwy'r Sir. Mae rhai partneriaethau wedi datblygu'n gynt nag eraill er mwyn hybu prosiectau penodol ac i wneud yn sir bod anghenion y cwsmeriaid yn cael eu diwallu. Ystyriwyd bod hyn yn elfen hanfodol o lwyddiant unrhyw Asiantaeth Gofal a Thrwsio yng Nghymru.

Un enghraifft o waith partneriaeth arloesol yw Prosiect Cartrefi Iach yr Asiantaeth. Y Gweithiwr Achos Iechyd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn ac mae'n canolbwyntio ar adeiladu partneriaethau a phrotocolau cyfeirio gyda gweithwyr sy'n rhoi gofal sylfaenol ac sy'n gweithio yn y gymuned, megis Nyrsys Bro, Ymwelwyr Iechyd. Y prosiect hwn oedd y glasbrint ar gyfer pecyn Rhestr Wirio Cartrefi Iach a gafodd ei lansio'n genedlaethol gan Gofal a Thrwsio Cymru a Shelter Cymru yn 2003. Ers i'r prosiect ddechrau yn 2002, gan ddefnyddio cyfuniad o gyllid cenedlaethol a chyllid lleol, mae'r rhwydwaith cyfeirio wedi tyfu ac wedi cyfrannu at lwyddiant y Rhaglen Addasiadau Brys yng Nghaerffili. Yn fwy diweddar, defnyddir y rhwydwaith i gynorthwyo â'r Gwasanaeth Sgrinio ar gyfer pobl dros 75 oed sy'n cael ei gyflwyno gan nyrsys bro ac sy'n cael ei ariannu gan Gyllid Anghydraddoldeb Townsend. Mae'r Asiantaeth yn cydnabod ei bod yn anodd cynnwys Meddygon Teulu yn y gwaith oherwydd bod eu hamser a'u hadnoddau mor brin; mae gan yr Asiantaeth, fodd bynnag, berthynas weithio dda â staff meddygfeydd drwy'r Prosiect Cartrefi Iach.

Mae gan yr Asiantaeth tua 200 o achosion "byw" sy'n defnyddio'u gwasanaeth craidd sef addasu a gwella, ac mae'r nifer yn codi i dros 400 wrth gynnwys y Rhaglen Addasiadau Brys. Hyd yma, cyfeiriwyd dros 1000 o achosion i'r Asiantaeth ac roedd 950 o'r rhain wedi cael cymorth gan dîm yr Asiantaeth.

Y rhai sydd â hawl i ddefnyddio gwasanaethau'r Asiantaeth yw'r rheini sy'n berchennog ar eu cartrefi ac sy'n 60+ a rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sy'n 75+ ac sy'n bwy ar eu pennau eu hunain. Nid yw'r Asiantaeth yn delio â gwaith y ceir grant awdurdod lleol ar ei gyfer, a chan hynny, mae'n helpu'r cwsmeriaid hynny nad ydynt yn gallu manteisio ar y system grantiau. Mae'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yr asiantaeth yn talu am eu gwaith trwsio eu hunain er y bydd angen cymorth gan ganran fechan ohonynt gan gyrff megis y Lleng Brydeinig neu gronfa les debyg.

Y gwasanaeth craidd y mae'r asiantaeth yn ei gynnig yw addasu, trwsio a gwella. Contractwyr lleol sy'n gwneud y gwaith fel rheol, ac mae'r rheini'n gwneud cais i gael eu cynnwys ar restr yr Asiantaeth o gontractwyr wedi'u cymeradwyo. Mae'r Asiantaeth yn cyflogi gweithiwr cyffredinol i ymgymryd â mân orchwylion nad ydynt yn costio llawer ac y mae modd eu cwblhau'n sydyn, ond sy'n anodd eu trefnu gan amlaf drwy gontractwr arferol. Dim ond un gweithiwr cyffredinol sy'n cael ei gyflogi gan yr Asiantaeth ar hyn o bryd ond oherwydd llwyddiant y gwasanaeth maent yn ystyried cyflogi un arall. Bydd yr asiantaeth yn codi £10 i dalu am y gost o redeg y gwasanaeth hwn, ac o ganlyniad, nid oes raid dibynnu ar grant i'w gynnal.

Un o'r prif broblemau a nodwyd oedd prinder contractwyr addas i wneud y gwaith. Oherwydd bod y cwsmeriaid, fel grp, yn hawdd i'w niweidio mae'r Asiantaeth yn ofalus iawn ynghylch pwy sy'n cael eu hychwanegu at y rhestr o gontractwyr wedi'u cymeradwyo. Roedd plymwyr, tirlunwyr a pheintwyr a phapurwyr yn brin neu'n codi gormod i'w cynnwys yn y farchnad arbennig hon.

Gall gwasanaeth technegol yr Asiantaeth gynnig cyngor sy'n amrywio o ddarparu manyleb i archwilio'r gwaith ar y diwedd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig arweiniad ar gynnal a chadw cartrefi yn yr hirdymor i osgoi argyfwng, gan helpu pobl i flaenoriaethu eu gwaith drwy lunio rhaglen ar gyfer pob tymor.

Mae mwyafrif o gwsmeriaid yr Asiantaeth yn eu cyfeirio'u hunain; mae'r Asiantaeth, fodd bynnag, yn darparu Cynllun Diogelwch yn y Cartref ar ran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r gwasanaeth hwn, y ceir grant ar ei gyfer, sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Maent hefyd yn cyfeirio cwsmeriaid at yr Asiantaeth am resymau cyffredinol eraill megis mân waith trwsio neu welliannau na cheir grant ar eu cyfer. Mae rhwydwaith cyfeirio cadarn rhwng yr Asiantaeth a chyrff eraill sy'n gweithredu'n lleol megis Age Concern a chynllun Gwent Bobby i wneud yn sir bod pobl hn yn cael cyngor ynghylch y gwasanaeth mwyaf addas sydd ar gael a sut y gallant gael cymorth. Nid yw'n anarferol i nifer o asiantaethau fod ynghlwm wrth un achos ar yr un pryd er mwyn diwallu anghenion y cwsmer a chyflawni'r nod. Teimla Gofal a Thrwsio ei bod o fudd i bawb i gyrff gydweithio.

Mae staff Asiantaeth Caerffili yn credu eu bod wedi cael budd mawr o'r archwiliad a wnaed gan yr Asiantaeth Gwasanaeth Cyfreithiol o'u dulliau gweithio. Roedd y staff yn pryderu am yr archwiliad i ddechrau, ond bu'r profiad yn un buddiol, o ran nodi arferion da ac o ran awgrymu sut y gellid gwella'r gwasanaeth.

Mae Asiantaeth Caerffili wedi gweithio gyda'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol i symleiddio'u gweithrediadau. I hwyluso'r broses o gyd-gynllunio, sefydlwyd Grp Cynghori Strategol fis Medi 2002 gyda chylch gorchwyl penodol i lunio Cynllun Busnes cynhwysfawr i'w gymeradwyo gan Bwyllgor Rheoli'r Asiantaeth. Mae cynrychiolwyr o'r Cyngor Bwrdeistref Sirol a'r Grp Iechyd Lleol yn aelodau o'r Grp Cynghori. O ganlyniad i'r gwaith mapio sirol a wnaed wrth baratoi Cynllun Busnes yr Asiantaeth cafodd yr Asiantaeth gyfle i weld a oedd gwasanaethau'n cael eu dyblygu yn y sir a thrwy hynny, roedd modd iddynt gymryd camau i osgoi hynny.

Mae'r Cynllun Diogelwch yn y Cartref yn delio'n bennaf, ond nid yn gyfangwbl, ag achosion yn ymwneud â phobl â nam ar eu golwg neu eu clyw gan addasu eu cartrefi yn y ffordd fwyaf addas i ddelio â'u hanabledd, gan eu galluogi i adnabod y rhai sy'n galw heibio'u cartrefi ac i fyw mor annibynnol ag y bo modd.

Dim ond perchen-feddianwyr a thenantiaid preifat sy'n cael defnyddio gwasanaeth Gofal a Thrwsio. Nid yw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig na thenantiaid y Cyngor yn gymwys. Mae hyn ynddo'i hun yn creu problemau mewn rhai ardaloedd.

Nid yw gwasanaeth craidd yr Asiantaeth yn cynnwys garddio na phaentio a phapuro oni bai fod y gwaith yn rhain o waith addasu etc. Yn y gorffennol byddai asiantaethau megis "Groundwork" ar gael i ymgymryd â phrosiectau o'r fath yn y gymuned. Nid yw'r rhain mor gyffredin ag y byddent. Mae'n bosibl y gallai'r Asiantaeth Gofal a Thrwsio ehangu ei gorwelion yn y maes hwn.

Nid yw staff yn Asiantaeth Caerffili, nac Asiantaethau Gofal a Thrwsio eraill yng Nghymru o bosibl, yn cael eu hasesu gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Er eu lles eu hunain, dylid ystyried cynnal asesiadau o'r fath. Mae'n syndod, efallai, na chafodd hyn ei argymell gan Safon Marc Ansawdd y CLS

Roedd Asiantaeth Caerffili yn ymddangos yn ddynamig, yn arloesol ac yn frwdfrydig. Roedd y staff yn rhoi'r argraff eu bod yn egnïol ac yn effeithlon. Mae llawer i'w ddysgu yno i sicrhau bod asiantaethau eraill ledled Cymru yn gweithio'r un mor effeithiol. Mae Cynlluniau Busnes Strategol a baratowyd ar gyfer 2003-2006 a 2004-2007 ar gael i'r aelodau.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Chwefror 2004